# Llysgennad Gwirfoddol – Amgueddfa Lechi Cymru

**Pwrpas y rôl:** Mae Llysgenhadon Gwirfoddol yn ffrindiau allweddol i Amgueddfa Cymru ac yn dathlu ein gwaith. Maen nhw'n cydweithio gyda'r Amgueddfa ac yn ein cefnogi i wella ac ehangu ein gwasanaethau cymunedol.

Tra bod Amgueddfa Lechi Cymru ar gau ar gyfer project ailddatblygu sylweddol, bydd Llysgenhadon Gwirfoddol yn helpu efo'r cam nesaf o barhau â'n stori tu hwnt i furiau'r amgueddfa!

Bydd Llysgenhadon yn:

- cyflwyno syniadau a chynnig adborth gyda'i gilydd,
- mynychu digwyddiadau a sesiynau ychwanegol i hyrwyddo ein gwaith,
- edrych ar ein gwaith o bersbectif newydd,
- gallu mynychu cyfarfodydd a phwyllgorau amrywiol ar draws Amgueddfa Cymru i gynrychioli eu hunain, eu cymunedau a'r gwirfoddolwyr

**Lleoliad:** Amgueddfa Lechi Cymru **Oed:** 18+

**Byddai'r rôl hon yn addas os ydych chi:**

- yn barod i ymroi a rhannu eich profiad
- yn hapus i leisio eich barn yn adeiladol
- am ddyrchafu pobl eraill
- yn hapus i rannu eich brwdfrydedd dros Amgueddfa Cymru

Mae'r rôl yn agored i bawb ac rydym yn gwerthfawrogi safbwyntiau o gefndiroedd amrywiol. Hoffwn glywed yn benodol gan bobl sydd â phrofiad byw o niwroamrywiaeth, anabledd, rhai sy'n uniaethu fel rhan o'r mwyafrif byd-eang neu o gymunedau LHDT+.

**Ystyriaethau:** Gall hon fod yn rôl ad hoc. Fel rhan o'r rôl byddwch chi'n derbyn cyfrif e-bost Amgueddfa Cymru ac yn cysylltu â staff a gwirfoddolwyr eraill drwy Microsoft Teams a dros e-bost.

**Oriau ac Ymrwymiad:** Anelwn i gyfarfod unwaith y mis wyneb yn wyneb neu ar-lein. Mae natur y rôl yn golygu y gall gwirfoddolwyr ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol.

Diddordeb? Cwblhewch ffurflen gofrestru a'i dychwelyd, neu E-bostiwch gwirfoddoli@amgueddfacymru.ac.uk neu ffoniwch (029) 2057 3002 gydag unrhyw gwestiynau.

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg a fydd hyn ddim yn arwain at oedi.

Y buddion i'n Llysgenhadon Gwirfoddol:

- talu treuliau teithio
- gostyngiad yn ein siopau, caffis, cyrsiau ac arddangosfeydd
- geirda ar gais
- gwahoddiad i ddigwyddiadau, a mynediad tu ôl i'r llenni
- chyfle i gwrdd â phobl newydd
- mynediad at ein platfform hyfforddi, a hyfforddiant ychwanegol ar gyfer y rôl.